

# ADEILADU DYFODOL CYMRU

## MANIFFESTO PRIFYSGOLION CYMRU AR GYFER ETHOLIADAU'R SENEDD 2021

Universities Wales
Prifysgolion Cymru

ADEILADU
DYFODOL
CYMRU

# MAE PRIFYSGOLION YN NEWID...

MEWN BYD SY'N NEWID YN GYFLYM, NID YW EIN PRIFYSGOLION WEDI SEFYLL YN EU HUNFAN

# DROS Y TYMOR SENEDD HWN, MAE CYMRU WEDI WYNEBU'R HERIAU A DDAETH YN SGIL NEWID YN YR HINSAWDD, ANSEFYDLOGRWYDD BYD-EANG, PERTHNASOEDD MASNACHU NEWYDD AC, WRTH GWRS, PANDEMIG CORONAFEIRWS.

Mae prifysgolion wedi ymateb i'r heriau hyn dros y pum mlynedd diwethaf yn yr unig ffordd y maent yn gwybod sut i wneud hynny: trwy addasu, gweithio gyda'i gilydd, cyflwyno sgiliau i fwy o bobl o bob oed a chefndir, a chynnal ymchwil ac arloesi sy'n arwain y byd.

Mae Rhwydwaith Cennad Ddinesig y prifysgolion yn helpu i ddatblygu a chryfhau gwaith prifysgolion ar ran cymunedau ledled Cymru. Mae pob prifysgol bellach yn gyflogwr Sefydliad Cyflog Byw achredededig. Mae ein prifysgolion yn datblygu ffyrdd newydd a gwell o ddarparu sgiliau i bobl ledled y wlad trwy gynlluniau fel prentisiaethau gradd. Rydym yn datblygu ffyrdd newydd o gydweithio ar brosiectau ymchwil ac arloesi. Yn rhyngwladol, rydym yn parhau i adeiladu ar bartneriaethau a phrosiectau ledled y byd, gan hyrwyddo Cymru fel cyrchfan agored a chroesawgar i fyfyrwyr ac ymchwilwyr fel ei gilydd.

Nid oes unrhyw beth yn adlewyrchu cyflymder a gwytnwch ein prifysgolion yn well na'u gallu i ymateb i'r heriau sy'n ein hwynebu yn sgil argyfwng Covid-19: o ddulliau dysgu newydd ar-lein, i ddarparu gofal bugeiliol i fyfyrwyr; o gynhyrchu PPE, i ymchwilio i driniaethau ar gyfer y clefyd. Gydol yr amser hwn, gwirfoddolodd llawer o fyfyrwyr a staff ledled Cymru i fod ar y rheng flaen ym maes gofal iechyd ac yn ein cymunedau.

## EIN HUCHELGAIS AR GYFER CYMRU

Mae'r dyfodol yn parhau i fod yn ansicr wrth i'r wlad ddechrau dod allan o'r pandemig a chychwyn ar gyfnod newydd gyda gwahanol gysylltiadau masnachu byd-eang. Mae'r argyfwng newid hinsawdd yn debygol o ddod yn fwy o fygythiad i'n ffordd o fyw. Mae'r gweithle'n newid. Bydd digideiddio ac awtomeiddio yn golygu heriau a chyfleoedd cymdeithasol ac economaidd newydd. Gyda'i gilydd, mae'r heriau hyn yn ddigynsail.

Trwy weithio gyda'r Senedd nesaf a Llywodraeth Cymru, gall prifysgolion fod wrth galon adferiad cenedlaethol. Gall ein prifysgolion helpu i adeiladu dyfodol Cymru trwy gyflawni uchelgais ac addewid Cymru.

Mae prifysgolion Cymru mewn sefyllfa dda i gynorthwyo â chyflawni gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer Cymru sy'n cynnwys:

- Adeiladu Rhanbarthau Cymru
- Gweithlu sy'n barod ar gyfer y dyfodol
- Cymru gynaliadwy, werdd
- Dyfodol digidol Cymru
- Gwlad sy'n gystadleuol ar raddfa fyd-eang, ac sy'n edrych tuag allan
- Hyrwyddo ein diwylliant

## SUT Y GALL LLYWODRAETH YN Y DYFODOL EIN HELPU I DDARPARU

### Cyllido sefydlog a chynaliadwy trwy ffioedd a grantiau

Er mwyn i'n prifysgolion gyflawni ein huchelgais ar gyfer Cymru, bydd cyllido sefydlog a chynaliadwy yn hanfodol. Wrth i'r galw am wahanol fathau o addysg uwch gynyddu, gan gynnwys dysgu rhan-amser, bydd angen mwy o gapasiti i gyflawni o fewn ein prifysgolion.

**1.**

Darparu cyllid sefydlog a chynaliadwy i brifysgolion

**2.**

Cynorthwyo iechyd meddwl a llesiant myfyrwyr trwy brif-ffrydio'r cyllid a dderbyniwyd gan brifysgolion ac undebau myfyrwyr yn ystod pandemig Coronavirus

### Ymchwil ac arloesi

Mae ymchwil ac arloesi yn ysgogwyr allweddol ar gyfer cynhyrchiant, gan greu swyddi ledled Cymru. Mae arian fel cyllido ar gyfer ymchwil sy'n gysylltiedig ag ansawdd a chyllido arloesi yn chwarae rhan hanfodol wrth alluogi prifysgolion Cymru i sicrhau cyllido o'r tu allan i Gymru, gan arwain at fudd economaidd pellach.

Rydym yn gofyn i'r pleidiau ymrwymo i wneud y canlynol:

**3.**

Sefydlu Dirprwy Weinidog ar gyfer Ymchwil ac Arloesi, i weithio gyda phrifysgolion a gwneud y gorau o'r cyfleoedd uniongyrchol i sbarduno twf economaidd

**4.**

Gweithredu adolygiad Reid, gan ymrwymo i gynnydd mewn termau real o ran cyllido ar gyfer ymchwil sy'n gysylltiedig ag ansawdd, cynnydd mewn cyllido ar gyfer arloesi, a chymell sefydliadau i ddenu buddsoddiad o'r tu allan i Gymru.

### Sgiliau a datblygu talent

Mae mynd i'r afael â phrinder sgiliau Cymru a newidiadau yn y gweithle yn hanfodol os ydym am sicrhau twf a dyfodol llewyrchus, lle mae cymdeithas yn ymgysylltu'n ddinesig, yn gyfrifol ac yn iach.

Rydym yn gofyn i'r pleidiau ymrwymo i wneud y canlynol:

**5.**

Datblygu rhaglen uchelgeisiol Prifysgolion ar gyfer Sgiliau sy'n cefnogi arloesedd, cydweithredu, cynyddu gweithgaredd ac yn datblygu systemau dysgu hyblyg ymhellach

**6.**

Ehangu'r cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau gradd i gwmpasu ystod ehangach o bynciau a chynnwys lefel meistr

### Rhyngwladol

Yn y dirwedd ryngwladol gyfnewidiol a newydd yn dilyn y pandemig, bydd agendâu rhyngwladol prifysgolion yn rhan bwysig o'r adferiad, ac yn allweddol os ydym am greu gwlad sy'n gystadleuol ar lefel fyd-eang ac sy'n edrych tuag allan.

Rydym yn gofyn i'r pleidiau ymrwymo i wneud y canlynol:

**7.**

Sicrhau presenoldeb byd-eang Cymru mewn tirwedd ryngwladol hynod gyfnewidiol a newydd trwy fuddsoddi mewn rhwydweithiau a rhaglenni prifysgolion

**8.**

Bod yn uchelgeisiol wrth ddarparu strategaeth ryngwladol ar gyfer Cymru trwy osod targed i gynyddu allforion prifysgolion 75% i £950 miliwn erbyn 2030

# ADEILADU DYFODOL CYMRU

MAE PRIFYSGOLION YN NEWID...



Mae etholiadau yn darparu strwythur i ni fyfyrio ar yr hyn sydd wedi digwydd o'r blaen a sut mae hynny wedi siapio lle'r ydym ni. Yng Nghymru, rydym yn siarad am yr hyn a ddigwyddodd yn y Cynulliad cyntaf, neu'r ail Gynulliad, neu'r trydydd. Wrth i ni ddod at ddiwedd cyfnod arall o'r Senedd, gallwn edrych yn fanwl ar yr heriau a'r ansicrwydd sydd wedi bod yn nodweddiadol o'r pum mlynedd diwethaf.

Newid yn yr hinsawdd, gweithle sy'n newid, newid demograffig, anwadalrwydd byd-eang, newidiadau i'n perthnasoedd masnachu. Ac yn gefndir i hyn i gyd, y pandemig Coronafeirws. Mae temtasiwn i ganolbwyntio ar yr heriau a'r anawsterau hyn, yn hytrach na'r ffyrdd yr ydym wedi ymateb i'r her ac wedi mynd i'r afael â'r anawsterau hynny yn uniongyrchol.

Mae prifysgolion yng Nghymru wedi bodoli ers amser maith ond, fel unrhyw sefydliad o'r fath, nid ydyn nhw wedi sefyll yn eu hunfan. Trwy gydol yr ugeinfed ganrif gythryblus, mae ein prifysgolion wedi addasu a newid. Maen nhw wedi darparu sgiliau ac addysg i niferoedd mwy o bobl o gefndiroedd mwy amrywiol. Maent hefyd wedi arwain y ffordd o ran datblygiadau gwyddonol sydd wedi dylanwadu ar ein dealltwriaeth o'r byd a sut rydym yn byw ynddo.

## Mae ein prifysgolion yn parhau i newid.

In the past five years our universities have brought a renewed vigour to the ways in which they benefit people and places in Wales. We have seen greater teaching and research links built with primary and secondary schools. As a sector we have come together to form the Civic Mission Network which provides a vehicle to promote and share best practice on universities' civic mission work. We are developing a Civic Mission Framework for Wales that provides a clear structure to support the development and furthering of universities' work to benefit the people and places of Wales.

And we are in a unique position among the UK nations with every university in Wales being an accredited living wage employer.

We are driving forward new ways to facilitate and promote collaboration in research and innovation. We know that research and innovation in Wales is excellent, but there is a need for greater scale to bring additional investment to Wales. We think that working together will help to deliver this.

Universities have developed new ways of delivering higher-level skills to people of all ages and backgrounds. We have seen record-breaking growth in part-time and postgraduate study. We have also introduced degree apprenticeships in Wales and are working with employers to identify where there is demand for expansion of these programmes into different industries.

Universities are striving to deliver more for Wales. Our universities generate £500 million in export earnings and host students from 140 countries. Our work with partners through the Global Wales programme is now internationally recognised. Our work with Vietnamese universities to support the Vietnam Government's higher education reform agenda has delivered significant changes to university governance in Vietnam and consolidated our reputation as a key partner.

Our partnerships with prestigious scholarship schemes such as Fulbright and Chevening, as well as the launch of our own Global Wales Scholarships, attract talent to Wales. These initiatives promote Wales as an open, welcoming and attractive destination for students and researchers alike.

Nothing better reflects the speed and resilience with which universities can respond to the challenges we face than the way institutions responded to the immense challenges posed by the Coronavirus pandemic. When the pandemic hit, universities switched to online delivery, supported students in returning to their home addresses, and continued to teach and award programmes.

At the same time, universities stepped up to support the national effort. From manufacturing PPE to researching the virus and how best to treat and tackle it. From providing training and courses to supporting local communities through volunteering. Many of our staff and students volunteered to be on the frontline.

## EIN HUCHELGAIS AR GYFER CYMRU

Bydd Llywodraeth nesaf Cymru yn wynebu rhai o heriau mwyaf cymhleth yn ein hanes diweddar. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, nid ydym yn gwybod beth fydd ein hymadawiad o'r UE yn ei olygu i fasnach na'n cyfranogiad yn rhaglenni'r UE. Dim ond cynyddu wnaiff yr angen brys am fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Ar yr un pryd, mae Cymru yn mynd trwy gyfnod o newid demograffig sylweddol. Mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio, ac ar y cyfan mae'r boblogaeth honno'n hŷn ac yn meddu ar lai o gymwysterau na gweddill y DU. Disgwylir y bydd y pandemig yn cyflymu'r newid yn y gweithle, a oedd eisoes yn digwydd yn fyd-eang. Hyd yn oed lle mae amcangyfrifon yn awgrymu y bydd nifer y swyddi a gaiff eu creu yn fwy na'r rheiny sy'n mynd i ddiflannu, nid oes sicrwydd y bydd y swyddi hynny'n cael eu creu yng Nghymru.

Ond mae llawer i fod yn optimistaidd yn ei gylch, er gwaethaf yr anawsterau hynny sy'n ein hwynebu. Yn ogystal â'r gwaith anhygoel sy'n cynnig cymorth i'r ymdrech genedlaethol yn erbyn Covid-19, mae prifysgolion yn parhau i sbarduno arloesedd a chreu cyfleoedd i bobl yng Nghymru. Mae ein graddedigion ymysg y mwyaf entrepreneuraidd, gan berfformio'n well na'u cyfoedion mewn rhannau eraill o'r DU.

Mae ein prifysgolion yn denu myfyrwyr ac academyddion o bob cwr o'r byd, gan gyflwyno ymwelwyr newydd i gyfoeth naturiol a thirnodau hanesyddol Cymru.

Er gwaethaf yr ansicrwydd sydd ar y gorwel, rydym yn adeiladu prifysgolion cydweithredol, deinamig a gwydn gyda phoblogaeth amrywiol o fyfyrwyr a staff, sy'n barod i wrthsefyll pa bynnag newidiadau sydd o'n blaenau.

### Adeiladu Rhanbarthau Cymru

Mae prifysgolion Cymru yn angorau economaidd hanfodol ym mhob rhan o Gymru sy'n cefnogi'r economi sylfaenol. Mae pob prifysgol yng Nghymru yn gyflogwyr cyflog byw achrededig ac wedi ymuno â'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

Mae Cymru yn parhau i arwain y DU gyda'r gyfradd uchaf o fusnesau sy'n cael eu sefydlu gan raddedigion.

Rydym mewn sefyllfa unigryw i allu cefnogi blaenoriaethau'r pleidiau ymhellach o ran adeiladu rhanbarthau Cymru. Mae gan brifysgolion adnoddau i sicrhau budd uniongyrchol trwy gyllido tra hefyd yn gweithredu fel asiant ar ran sefydliadau a busnesau eraill - a allai fod â llai o allu gweinyddol - i gael mynediad at gyfleoedd buddsoddi rhanbarthol. Mae ein gwaith ar hybu busnesau newydd sy'n cael eu sefydlu gan raddedigion yn bwydo i mewn i economïau rhanbarthol ac yn cefnogi amcanion cyflogaeth.

Y tu hwnt i hynny, mae prifysgolion hefyd wedi dangos eu gallu i gael gafael ar gyllido rhanbarthol er mwyn sicrhau buddsoddiad ychwanegol ar gyfer Cymru.

### Gweithlu sy'n barod ar gyfer y dyfodol

Mae'r gweithle'n newid, ac mae risgiau a chyfleoedd i Gymru yn sgil y newid hwn. Rydym yn gweld galw cynyddol am sgiliau lefel uwch, ar yr un pryd â'r risg y bydd awtomeiddio a newid technolegol yn peri crebachu yn y sectorau hynny y mae Cymru yn dibynnu arnynt am gyflogaeth. Mae hyn, ynghyd â demograffeg Cymru, yn golygu y bydd angen i ni roi cymorth i fwy o bobl o bob oed a chefndir i uwchsgilio ac ailhyfforddi.

Yn ystod cyfnod nesaf y Senedd bydd prifysgolion yn gallu cynorthwyo cyflogaeth mewn ffyrdd allweddol:

- trwy ddarparu dysgu hyblyg cydgysylltiedig, gan gynnwys darpariaeth ran-amser
- trwy ddarparu gweithgaredd ymchwil ac arloesi a fydd yn creu busnesau newydd, swyddi newydd a diwydiannau newydd. Bydd hyn yn cynnwys partneriaethau trosglwyddo gwybodaeth sy'n helpu busnesau sy'n bodoli eisoes i ehangu

- trwy gynnig cymorth i'r genhedlaeth o fusnesau newydd, gan gynnwys sy'n cael eu sefydlu gan raddedigion, lle mae Cymru eisoes yn arwain y DU
- trwy weithgaredd economaidd lleol gan brifysgolion, yn cynnwys y cyfraniad at yr economi sylfaenol a gwariant gan staff, myfyrwyr ac ymwelwyr

## Gwlad sy'n gystadleuol ar raddfa fyd-eang, ac sy'n edrych tuag allan

Mae prifysgolion yn gyfrifol am oddeutu £500 miliwn o enillion tramor yng Nghymru: tua 4% o holl allforion Cymru. Ond mae'r cyfraniad y mae prifysgolion yn ei wneud yn ehangach na budd economaidd uniongyrchol.

Trwy gyn-fyfyrwyr, staff a symudedd myfyrwyr, ymchwil cydweithredol, gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon mae ein prifysgolion yn cyfrannu at bŵer meddal Cymru.

Mae partneriaethau a sefydlwyd gan ein prifysgolion trwy addysg drawswladol, ymchwil a gweithgareddau masnachol wedi sefydlu ôl troed sylweddol i Gymru yn rhyngwladol, gan adeiladu ar gydnabyddiaeth ryngwladol o Gymru fel gwlad arloesol a blaengar. Yn yr un modd, trwy ddod i Gymru, mae myfyrwyr, staff ac ymchwilwyr rhyngwladol yn chwarae rhan amhrisiadwy wrth arallgyfeirio a rhyngwladoli ein cymunedau.

## Cymru gynaliadwy, werdd

Mae prifysgolion Cymru yn wirioneddol ar y blaen wrth ddatblygu a gweithredu datrysiadau i'r heriau a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd.

Mae hyn yn cynnwys ymchwil ac arloesi sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r ffordd yr ydym ni fel cymdeithas yn trosglwyddo i ddyfodol carbon isel, yn ogystal â'r heriau ymarferol sy'n ymwneud â chynhyrchu a storio ynni. Mae llawer o'r prosiectau hyn yn gydweithredol ac yn rhoi sylw manwl i faterion cymhleth a rhyngddibynnol.

Yn ogystal ag ymchwil ac arloesi ym maes carbon isel ac ynni, mae prifysgolion hefyd at sefyllfa dda i ddarparu ar gyfer defnydd cynaliadwy o adnoddau, tiroedd a moroedd.

Dim ond rhan o'r darlun yw ymchwil ac arloesi. Wrth i ni gyflwyno technolegau newydd - fel y rhai a fydd yn creu ac yn cynyddu nifer y cartrefi niwtral o ran ynni neu ynni-bositif - bydd angen i ni hefyd ailhyfforddi ac uwchsgilio'r rhai a fydd yn gosod ac yn defnyddio'r technolegau hyn. Bydd cyfleoedd i uno'r system sgiliau ymhellach, gan felly ganiatáu i ymchwil ac arloesi blaengar ffurfio sail i'r ddarpariaeth ar draws y system addysg gyfan.

## Dyfodol digidol Cymru

Bydd ymateb Cymru i ddigideiddio, a sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddaw, yn dibynnu i raddau helaeth ar ein gallu i uwchsgilio ein poblogaeth ymhellach, a'r llwyddiant a gawn wrth ddarparu ymchwil ac arloesi yn y maes hwn.

Mae prifysgolion mewn sefyllfa dda i gyflawni hyn. Mae cyflwyno prentisiaethau gradd yn y maes digidol wedi arwain at alw sylweddol a chynyddol gan fusnesau ledled Cymru. Mae ein prifysgolion yn gartref i hybiau a chanolfannau uchel eu proffil sy'n ymwneud â seiberddiogelwch, peirianneg meddalwedd a gwyddoniaeth data.

Mae prifysgolion yng Nghymru yn adeiladu dyfodol digidol Cymru. Mae angen cefnogaeth o ran cyllido a pholisi ar gyfer y sector hwn sy'n datblygu'n gyflym.

## Hyrwyddo ein diwylliant

Mae prifysgolion yn chwarae rhan bwysig ym mywyd diwylliannol Cymru. Yn ogystal ag addysgu ac ymchwil yn y celfyddydau a'r dyniaethau, mae ein prifysgolion yn aml yn ganolfannau diwylliannol ac artistig sy'n cynnig perfformiadau byw, arddangosfeydd a darlithoedd cyhoeddus. Mae ein prifysgolion yn ymgymryd ag ymchwil ynglŷn â Chymru a'i diwylliant.

Y tu hwnt i hynny, mae prifysgolion yn aml yn darparu gofod cymunedol, lle i bobl ymgynnull ac ymwneud â gweithgareddau a rennir.

Wrth i ni ddod allan o'r pandemig Coronafeirws, bydd presenoldeb sefydledig prifysgolion mewn cymunedau yn darparu cyfleoedd i ddod ynghyd a rhannu profiadau.

Bydd ein prifysgolion hefyd yn parhau i fod yn allweddol o ran cyflawni uchelgeisiau o ran y Gymraeg trwy ddarparu addysg Gymraeg a hefyd, mewn llawer o achosion, darparu neu gynnal cyrsiau Cymraeg i Oedolion

## Ein myfyrwyr a'n staff

Myfyrwyr a staff yw calon ein prifysgolion; roeddent yn ganolog o ran cyflymder ein prifysgolion wrth addasu i'r heriau a ddaeth yn sgil y pandemig. Maent yn dod â buddion economaidd i ardaloedd lleol. Mae'r gweithgaredd ymchwil ac arloesi a wneir gan ein staff a'n myfyrwyr yn creu gwybodaeth newydd a swyddi newydd; ymhellach maent yn allweddol wrth ddatblygu ffyrdd y gall ein pobl fod yn barod am gyfleoedd newydd a gwireddu twf economaidd a chynaliadwy yng Nghymru.

Mae prifysgolion Cymru wedi arwain y DU ar feysydd allweddol o brofiad a boddhad myfyrwyr, a thros dymor nesaf y Senedd, bydd rhagoriaeth mewn addysgu a dysgu, ynghyd â'r gefnogaeth fugeiliol bwysig y mae ein sefydliadau yn adnabyddus amdani, yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol. Mae'r defnydd o dechnolegau newydd a ysgogwyd gan y pandemig hefyd yn golygu cyfleoedd i Gymru arwain y byd wrth ddarparu addysgu a dysgu. Mae hyn eisoes i'w weld ar ffurf cydweithrediad ledled Cymru ar ddysgu cyfunol.

## Gweithio gyda Llywodraeth nesaf Cymru

Un o nodweddion yr ymateb cenedlaethol i'r pandemig coronafeirws fu'r cydgynhyrchu a chydweithredu rhwng prifysgolion, llywodraethau a rhanddeiliaid. Mae'r agwedd gydweithredol hon yn un y gallwn adeiladu arni wrth symud i dymor nesaf y Senedd. Fel yr ydym wedi nodi yn gynharach yn y ddogfen hon, rydym yn wynebu heriau a rhwystrau clir wrth fynd i mewn i dymor nesaf y Senedd. Ond credwn fod cyfleoedd gwirioneddol i'r llywodraeth, y Senedd a phrifysgolion weithio gyda'i gilydd i ddatblygu a gweithredu datrysiadau i fynd i'r afael â'r heriau hynny.

Mae prifysgolion wedi gosod cyfeiriad clir i'r perwyl hwn yn eu Datganiad o Fwriad yn ddiweddar[1]. Wrth i ni symud i dymor nesaf y Senedd, bydd prifysgolion yn parhau i weithredu rhaglen o newid a fydd yn gwella cydweithredu, gan sicrhau buddion diriaethol i bobl a lleoedd Cymru.

1 https://www.hefcw.ac.uk/wp-content/uploads/2020/09/W20-27HE-Higher-E EDUCATION-Investment-and-Recovery-Fund.pdf

# SUT Y GALL LLYWODRAETH YN Y DYFODOL EIN HELPU I DDARPARU

## 1. CYLLIDO SEFYDLOG A CHYNALIADWY TRWY FFIOEDD A GRANTIAU

Er mwyn i'n prifysgolion gyflawni ein huchelgais ar gyfer Cymru, bydd cyllido sefydlog a chynaliadwy yn hanfodol. Wrth i'r galw am wahanol fathau o addysg uwch, gan gynnwys dysgu rhan-amser, gynyddu, bydd angen mwy o gapasiti i gyflawni o fewn ein prifysgolion.

Mae ein prifysgolion yn rhan greiddiol o seilwaith cenedlaethol Cymru. Maent yn chwarae rhan hanfodol o ran cyflogaeth ac economi ehangach y rhanbarthau y maent wedi'u lleoli ynddynt. O ran eu cyfraniad, mae prifysgolion yn bwysicach i economi Cymru nag yng ngwledydd eraill y DU.

Ar hyn o bryd mae prifysgolion yn cael eu hariannu trwy gyfuniad o ffioedd a grantiau; mae argymhellion adolygiad Diamond, gyda chefnogaeth prifysgolion a myfyrwyr, wedi bod yn allweddol yn hyn o beth.

**Rydym yn gofyn i'r pleidiau ymrwymo i ddarparu cyllido sefydlog a chynaliadwy ar gyfer prifysgolion**

**Rydym yn gofyn i'r pleidiau gynorthwyo iechyd meddwl a llesiant myfyrwyr trwy brif-ffrydio'r cyllid a dderbyniwyd gan brifysgolion ac undebau myfyrwyr yn ystod pandemig Coronafeirws**

## 2. SGILIAU A DATBLYGU TALENT

Mae mynd i'r afael â phrinder sgiliau Cymru yn hanfodol os ydym am sicrhau twf a dyfodol llewyrchus, lle bydd pobl yn ymgysylltu'n ddinesig, yn gyfrifol ac yn iach.

Mae prifysgolion eisoes wedi ymrwymo i ehangu cyrhaeddiad yr hyn maent yn ei gynnig o ran sgiliau, gan gynnwys dysgu rhan-amser a gydol oes, ond mae yna ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru yn y dyfodol gynnig cymorth i'r sector i gyflawni ymhellach er budd Cymru.

Efallai mai'r rhan fwyaf allweddol o wneud hynny yw sicrhau cyllido sefydlog a chynaliadwy i brifysgolion. Yn ogystal â hyn:

**Rydym yn gofyn i'r pleidiau ymrwymo i ddatblygu rhaglen uchelgeisiol Prifysgolion ar gyfer Sgiliau sy'n cefnogi arloesedd, cydweithredu, cynyddu gweithgaredd ac yn datblygu systemau dysgu hyblyg ymhellach**

**Rydym yn gofyn i'r pleidiau ymrwymo i ehangu'r cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau gradd i gwmpasu ystod ehangach o gynciau a chynnwys lefel meistr**

## 3. YMCHWIL AC ARLOESI

Mae ymchwil ac arloesi yn allweddol o ran ysgogi cynhyrchiant. Trwy'r gwaith y mae ein prifysgolion yn ei wneud yn y maes hwn, mae swyddi newydd yn cael eu creu ledled Cymru, ac mae'r defnydd a wneir o'r ymchwil hwn yn cynorthwyo busnesau i fod yn fwy ystwyth a chystadleuol.

Mae tirwedd ein prifysgolion yn symud yn gyflym. Bydd arian o'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd, sydd wedi bod yn arbennig o bwysig o ran cynnal ymchwil ac arloesi yng Nghymru, yn dod i ben ac nid oes sicrwydd o hyd ynghylch unrhyw gyllid newydd a ddaw yn ei le. Ar yr un pryd mae swm y cyllid cystadleuol sydd ar gael ledled y DU yn cynyddu.

Mae prifysgolion Cymru yn gweithio i drawsnewid y ffyrdd yr ydym yn cydweithredu ar ymchwil, er mwyn sicrhau ein bod mor gystadleuol â phosibl wrth fynd ati i wneud cais am gyllido.

Yn ei adolygiad o ymchwil ac arloesi a ariennir gan Lywodraeth Cymru, amlygodd yr Athro Graeme Reid sut mae ffrydiau cyllido fel cyllido ar gyfer ymchwil sy'n gysylltiedig ag ansawdd a chyllid arloesi yn chwarae rhan hanfodol yng ngallu prifysgolion Cymru i gael gafael ar gyllido o'r tu allan i Gymru, gan ddod â budd economaidd a swyddi i'r wlad.

**Rydym yn gofyn i'r pleidiau ymrwymo i greu rôl Dirprwy Weinidog ar gyfer Ymchwil ac Arloesi, i weithio gyda phrifysgolion a gwneud y gorau o'r cyfleoedd uniongyrchol i sbarduno twf economaidd**

**Rydym yn gofyn i'r pleidiau ymrwymo i weithredu adolygiad Reid, gan ymrwymo i gynnydd mewn termau real o ran cyllido ar gyfer ymchwil sy'n gysylltiedig ag ansawdd, cynnydd mewn cyllido ar gyfer arloesi, a chymell sefydliadau i ddenu buddsoddiad o'r tu allan i Gymru.**

## 4. RHYNGWLADOL

Yn y dirwedd ryngwladol gyfnewidiol a newydd yn dilyn y pandemig, gwelwn agendâu rhyngwladol prifysgolion, ac yn wir rhaglen Cymru Fyd-eang, yn rhan bwysig o'r adferiad, ac yn allweddol os ydym am greu gwlad sy'n gystadleuol ar lefel fyd-eang ac sy'n edrych tuag allan.

**Rydym yn gofyn i'r pleidiau ymrwymo i sicrhau presenoldeb byd-eang Cymru mewn tirwedd ryngwladol hynod gyfnewidiol a newydd trwy fuddsoddi mewn rhwydweithiau a rhaglenni prifysgolion**

**Rydym yn gofyn i'r pleidiau ymrwymo i fod yn uchelgeisiol wrth ddarparu strategaeth ryngwladol ar gyfer Cymru trwy osod targed i gynyddu allforion prifysgolion 75% i £950 miliwn erbyn 2030**

ADEILADU
DYFODOL
CYMRU

Prifysgolion Cymru
2 Pentir Caspian
Caerdydd
CF10 4DQ

+44 (0)29 2044 8020
info@uniswales.ac.uk
www.uniswales.ac.uk
@Unis_Wales